Cyngor Ysgolion Sul
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli
Gwynedd, LL53 6SH

Ffôn 01766 819120
Ebost aled@ysgolsul.com

BEIBL BYW

CYHOEDDIADAUR GAIR

I'w gyflwyno i sylw aelodau eich eglwys / YSGOL SUL

Llythyr ac Apêl Sul Addysg, 2016

Annwyl gyfeillion,

Wrth i ni fel eglwysi ac Ysgolion Sul baratoi ar gyfer y Nadolig pleser yw amgáu gwybodaeth am weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul i'ch sylw. Cofiwch am ein llyfrau gwasanaeth Nadolig, gan gynnwys cyfrol ddefosiynol newydd, **Defosiwn Gŵyl y Nadolig** (gweler tud 8). Mae yna ddewis o **3 comic Nadoligaidd** ar gyfer 2016, a **llyfr Nadolig gan Anni Llyn** ar gyfer y plant lleiaf (gweler tud 7). Mae gennym hefyd 8 cynllun cerdyn Nadolig newydd ar gyfer 2016 (gweler tud 5). Ym mlwyddyn y Beibl Byw cofiwch hefyd am ein dewis eang o lyfrau sy'n addas i'w cyflwyno yn rhoddion i blant ar adeg y Nadolig. Lansiwyd beibl.net blwyddyn union yn ôl, a bu cymaint o alw fel aeth y ddau fersiwn allan o brint, ond maent nôl mewn print eto erbyn hyn. Yn ychwanegol cyhoeddir **fersiwn print bras o beibl.net**, fydd ar gael o Ionawr y 10fed ymlaen am £24.99, ond mae modd i eglwysi sicrhau copïau am £20 tan ddiwedd Ionawr (gweler tud 3). Mae sawl cyfres o werslyfrau ar gael erbyn hyn, (gweler tud 2) ac o ran maes llafur yr oedolion byddwn yn dilyn llyfr Elfed ap Nefydd Roberts, **Dehongli Meddwl Paul** o fis Ionawr ymlaen. Erbyn hyn mae gennym llawer iawn mwy o adnoddau ar y we, ac mae modd prynu a lawr lwytho dros 100 o ffilmiau Beiblaidd, dros 50 o werslyfrau a dros 20 o lyfrau defosiynol mewn cyfrwng digidol. Ewch i ysgolsul.com a chliciwch ar Siop i weld yr holl arlwy.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd cyhoeddi casgliad newydd o ganeuon i blant ac ieuenctid, sef **Canu Clod!**, sy'n cynnwys dros 450 o ganeuon Cristnogol cyfoes a thraddodiadol. Maent ar gael fel dwy gyfrol am £50. (gweler tud 9). Bu 2016 yn flwyddyn arbennig yn hanes y Cyngor Ysgolion Sul hefyd wrth i ni ddathlu ein pen-blwydd yn 50 oed. Wrth edrych tua'r dyfodol, ein bwriad yw cynnal **Taith 50** yn ystod 2017, gan ymweld â 50 canolfan ledled Cymru I drafod gwaith Cristnogol ymhlith plant ac ieuenctid (gweler tud 11).

Cofiwch hefyd fy mod ar gael i gynghori ar waith yr ysgol Sul, ac yn arbennig ar yr adnoddau cyfoes sydd ar gael at eich gwasanaeth. Mae gwefan www.ysgolsul.com hefyd yn cynnwys llawer o adnoddau i'w lawr lwytho – ewch i adran Y Banc Adnoddau. Mae nifer o brojectau eraill megis Llan Llanast, Agor y Llyfr, Cwrs y Beibl, Alffa a Y Cam Nesaf yn gynlluniau y gellir eu defnyddio i hyrwyddo ein tystiolaeth. Gofynnwn hefyd am eich gweddïau chi dros y gwaith. Gwahoddwn ni chi fel eglwys i neilltuo rhan o wasanaeth yn ystod cyfnod yr Adfent i roi sylw i 'Sul Addysg', – bydd hyn yn rhoi cyfle i chi fel eglwys i ddiolch am gyfraniad addysg Gristnogol i fywydau ein hieuenctid, i ystyried ei werth heddiw, ac i weddïo dros bawb sy'n cyflwyno a derbyn yr addysg hwn. Mae deunydd ar ein gwefan ar gyfer cynnal oedfa ar y Sul hwn. Dyma'r Sul hefyd y mae Cyngor Ysgolion Sul yn gwneud ei apêl ariannol blynyddol i'r eglwysi. Diolchwn am bob cyfraniad at y gwaith dros y blynyddoedd diwethaf – mae'r rhoddion yma erbyn hyn yn gwbl allweddol i ddatblygiad ein gwaith. Apeliwn eleni eto am eich cefnogaeth haelionus, gan yrru unrhyw gyfraniadau ataf (yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul) i'r cyfeiriad uchod. Y mae'r her i genhadaeth ymhlith plant ac ieuenctid yn fwy nag erioed – diolch am bob cefnogaeth ymarferol a gweddigar. Diolch am bob cefnogaeth at waith yr Ysgol Sul – cofiwch gysylltu os am fwy o wybodaeth ar unrhyw agwedd o'r uchod.

Yn gywir,

D. Aled Davies **Aled Davies** Cyfarwyddwr

.....

Amgaeaf siec o £..... fel cyfraniad o Eglwys ..... am 2016.

Enw: ..... Ffôn: .....

Eglwys: ..... Ebost: .....

Cyfeiriad: .....

..... Côd Post .....

Dychweler at: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Ymddiriedolwyr: Parchedigion Geraint Tudur, Judith Morris, Dyfrig Lloyd, Jennie Hurd, Mr. Rheinallt Thomas a swyddogion cyfredol y Cyngor.
Cofrestrwyd fel Elusen/Registered Charity: Rhif/No: 525766
Swyddfa Gofrestredig/Registered Office: Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH.

Gwerslyfrau Ysgol Sul

Isod ceir rhai o'r cynlluniau gwerslyfrau sydd ar gael. Manylion llawn ar wefan ysgolsul.com.

Cynllun Bywyd Iesu

Gwerslyfr Beibl Gweithgaredd Bywyd Iesu (£16.99)
Ar gyfer plant o dan 11 oed cyhoeddir gwerslyfr newydd sbon gan Ann Bowen Morgan a Delyth Morgans-Phillips sy'n cyd-fynd â ***Beibl Gweithgaredd Bywyd Iesu (£6.99)***.

Mae'r gwerslyfr yn cynnwys dros 40 o wersi sy'n cynnwys stori Feiblaidd ynghyd â gwers bwrpasol gan gynnwys gweithgaredd crefft, lluniau a phôsau i'w lliwio, gemau a dysgu adnod. Ceir cyfeiriadau at adnoddau ychwanegol gan gynnwys ffilmiau a cyflwyniadau Power Point.

Mae ***Beibl Gweithgaredd Bywyd Iesu*** yn feibl lliw llawn sy'n cynnwys y stori'n llawn a dwy dudalen o weithgareddau i gyd-fynd â phob gwers.

Cynllun Stori Duw

Yn y gyfres ceir 50 o wersi sy'n mynd â ni ar daith gronolegol trwy'r Beibl, gan ddatguddio 'stori fawr Duw' ar gyfer ei fyd. Ceir adnoddau i bob oed o oed meithrin hyd at ddosbarth yr oedolion.

Mae'r gyfres yn cynnwys:
Gwerslyfr Stori Duw i blant dan 5
Testun: Sarah Morris, Pris: £14.99, cm.
50 o wersi cyflawn ar gyfer plant dan 5 oed

Gwerslyfr Stori Duw i blant dan 11 oed
Testun: Sarah Morris a Catrin Roberts, Pris: £14.99, cm.
50 o wersi cyflawn ar gyfer plant rhwng 6 a 11 oed

Gwerslyfr Stori Duw i Ieuenctid 11-15 oed
Testun: Rhun Murphy, Pris: £14.99, cm.
50 o sesiynau Beiblaidd i ieuenctid rhwng 11 a 15 oed

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 5 oed
Testun: John Pritchard, Pris: £18.99, cm.
Casgliad o 200 o brojectau crefft Beiblaidd i blant dan 5

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed
Testun: Dafydd Timothy, Pris: £18.99, cm.
Casgliad o 200 o brojectau crefft Beiblaidd i blant dan 11

Llyfr Lliwio Stori Duw
Testun: Angharad Llwyd-Jones, Pris: £14.99, cm.
Casgliad o 200 llun i gyd-fynd â'r gwerslyfrau i blant

Oedfaon Teulu Stori Duw
Testun: Gwyn Rhydderch (gol.), Pris: £9.99, cm.
Casgliad o 20 oedfa deuluol yn cyflwyno'r Beibl

I gyd fynd â'r gwerslyfr mae dau Feibl gweithgaredd sy'n cynnwys 40 stori a gweithgareddau.



Beibl Gweithgaredd y Plant
(dros 7 oed)
Beibl Gweithgaredd y Plant Lleiaf
(dan 7 oed)
Storïau o'r Beibl, chwileiriau, posau, gweddïau a gweithgareddau – mae'r llyfr byrlymus hwn yn siŵr o ddiddanu a dysgu. Pris: £7.99 yr un

CD Cyfres Stori Duw
Pris: £19.99. Y 7 gwerslyfr uchod ar ddisg ar ffurf PDF

Cynllun Golau ar y Gair

Yr hyn a geir o fewn y cynllun yma yw cyfres o 40 o werslyfrau athro a CD Rom ar storïau neu themâu arbennig, gyda pob llyfr yn cynnwys 3 gwers ac un oedfa deulu – digon ar gyfer mis o waith. Un llyfr sydd ei angen ar yr ysgol Sul gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. **40 teitl am £6.99 yr un**

Golau a'r y Gair (CD-ROM) Pris: £19.99
Y 40 gwerslyfr ysgol Sul i blant 4-14 oed ar un ddisg ar ffurf PDF.

Cynllun Mosaig

Ar gyfer grwpiau bach o blant ag ystod oed eang 12 sesiwn yn seiliedig ar y Beibl + gwasanaeth ar gyfer pob oed. Mae dau lyfr yn y gyfres sef 'Duw gyda Ni' a 'Mae Duw yn dda' sy'n cynnwys rhyngddynt 24 o wersi ysgol sul i blant 5-11 oed. Maent hefyd ar gael yn Saesneg o dan y teitl Mosaic.

Mae Duw yn Dda
Duw gyda Ni

Pris y llyfrau yw £11.99 yr un.

Ffurflen Archebu

Beiblau cyffrous newydd i bobl o bob oed

Prosiect ar y cyd rhwng:
CYNGOR YSGOLION SUL
beibl.net
CYMDEITHAS Y BEIBL

beibl.net
365 o storïau o'r Beibl

beibl.net

Erbyn hyn mae tri Beibl wedi eu cyhoeddi fel rhan o brosiect beibl.net. Mae fersiwn llawn o'r Beibl ar gael, fersiwn print bras, yn ogystal â Beibl lliw i blant. 365 o storïau – pob un ohonynt gyda llun lliw llawn a thestun o beibl.net. I bob archeb a dderbynir cyn Ionawr 31 medrwn gynnig y prisiau canlynol.

Cefnogir gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb Bedyddwyr Cymru, Yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys yng Nghymru.

PRISIAU

beibl.net cyffredin **£14.99** yr un

beibl.net 365 o storïau o'r Beibl **£14.99** yr un

Cynigir y prisiau canlynol am bob archeb a fydd wedi dod i law **erbyn Ionawr 31**.

Rhaid cynnwys y taliad gyda'r archeb.

2–5 copi: £14 yr un
6–24 copi: £12 yr un
25+ copi: £10.50 yr un

Bellach ar gael hefyd...

beibl.net 365 print bras **£24.99** yr un

Pris arbennig – 2 neu fwy **£20** yr un

Gellir cyfuno niferoedd o'r tri beibl oddi mewn i'r archeb er mwyn sicrhau y prisiau gostyngol.

Dosbarthu: Byddwn yn ceisio osgoi postio parseli ac yn trefnu gollwng pecynnau mewn canolfannau strategol ledled Cymru. Ni fydd cost yn gysylltiedig â hynny. Os fyddai'n well gennych dderbyn eich cyflenwad trwy'r post cysylltwch am fanylion cludiant.

Dymunaf archebu: ..... copi o beibl.net (y Beibl cyflawn) am £..... yr un

..... *copi o beibl.net mewn lliw – 365 o storïau o'r Beibl* am £..... yr un

..... *copi o beibl.net Print Bras* am £..... yr un

Amgaeaf siec o £..... yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'.

BEIBL BYW

Ffôn ..... **Ebost** .....

Enw a chyfeiriad .....

..... **Côd Post** .....

Dychweler at: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Cyfle i rannu stori'r Beibl yn eich Ysgol Leol –

Cynllun AGOR Y LLYFR

Ydych chi erioed wedi meddwl bod plant mewn ysgolion yn colli allan ar beth mae'r Beibl yn ei ddangos iddynt? Gallent fynd trwy eu bywyd ysgol heb ddysgu am Abraham, Moses, Dafydd, Ruth...neu hyd yn oed bywyd Iesu a straeon y Testament Newydd.

Y mae **Agor y Llyfr** yn gynllun cyffrous i alluogi eglwysi i greu cysylltiad gyda'i hysgol leol drwy ymweld yn gyson i ddarllen stori Feiblaidd i'r plant. Bwriad **Agor y Llyfr** yw cyflwyno tua 80 stori dros gyfnod o dair blynedd i blant oed cynradd mewn ysgolion ledled Cymru. Mae'r cynllun yn defnyddio **Beibl Newydd y Storïwr**, ynghyd â llyfr **Agor y Llyfr** sy'n rhoi syniadau a chyflwyniad i bob stori.

Pris **Beibl Newydd y Storïwr** yw £12.99. Mae'r llawlyfr ar gael trwy ymweld a gwefan www.openthebook.net am £5. Bydd angen cofrestru pob grŵp gyda Open The Book. I archebu **Beibl Newydd y Storïwr** gyrrer siec yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul am £12.99 gyda chludiant am ddim.

Dyma gyfle gwych i ni fel eglwysi greu cysylltiad gyda'n ysgol leol, gan rannu cynnwys y Beibl i genhedlaeth na fyddant o reidrwydd yn clywed y storïau hyn o unrhyw gyfeiriad arall.

Cofrestru
Os nad ydych wedi cofrestru eto, byddwch angen gwneud hyn fel tîm, trwy gwblhau ac anfon Ffurflen Gofrestru **Agor y Llyfr**. Os gwelwch yn dda, darllenwch ddogfen Gwybodaeth Aelodaeth Tîm **Agor y Llyfr**.

Os am weld sut mae'r cynllun yn gweithio mae ffilm fer ar wefan openthebook.net

Cwrs y Beibl

Mae y cwrs rhyngweithiol yma yn eich tywys i weld stori fawr y Beibl, o Genesis i Datguddiad. Ar y daith byddwch yn cael offer a sgiliau fydd yn eich helpu i ddarllen a chymhwyso'r Beibl i'ch bywyd bob dydd. Mae pob sesiwn yn cynnwys dysgeidiaeth ar DVD (yn Saesneg), trafodaeth grŵp a chynllun darllen dyddiol.

Mae'r Cwrs ar ffurf 16 ffilm 20 munud (sydd yn Saesneg ar hyn o bryd) gyda llawlyfr trafod sydd ar gael yn Gymraeg. I wybod mwy am y cwrs, i brynu y DVD's neu i lawrlwytho'r ffilmiau ewch draw i: www.thebiblecourse.org

Addas ar gyfer ei ddefnyddio mewn seiat, astudiaeth Feiblaidd neu ddosbarth Ysgol Sul oedolion. Gellir cynnal 8 sesiwn 2 awr neu 16 sesiwn awr.

Fe'u gwerthir ar ein gwefan (dan yr adran 'Prosiectau'>'Cwrs y Beibl') mewn pecynau o 5 am £24.95 (£4.99 yr un) a £2.95 am y cludiant. Maent hefyd ar gael drwy'r siopau Cymraeg a Christnogol.

Cwrs Alffa

BETH YW BYWYD?

alffa

Mae'r cwrs Alffa yn ceisio ateb rhai o'r cwestiynau allweddol sy'n rhan ganolog o'r ffydd Gristnogol, sydd wedi ei lunio ar gyfer rhai nad ydyn nhw'n mynychu addoldy, y rhai sy'n ceisio canfod rhagor am Gristnogaeth, a'r rhai sydd wedi dechrau arddel ffydd yn Iesu Grist yn ddiweddar. Mae yn llawn cwestiynau am Gristnogaeth, wedi canfod Duw fel eu Tad, Iesu Grist fel eu Gwaredwr a'u Harglwydd, a'r Ysbryd Glân fel yr un sy'n dod i fyw o'u mewn.

Cwestiynau Bywyd
Pris: £6.99
Llyfr i gyd-fynd â chwrs Alffa.

Llawlyfr Alffa
Pris: £1.50.
Llawlyfr i roi i bawb sy'n dilyn y Cwrs Alffa.

Llawlyfr Hyfforddi
Pris: £2.00.
Llawlyfr i arweinwyr y Cwrs Alffa.

Pam Iesu?
Pris: 50c.
Cyflwyniad byr i'r ffydd Gristnogol.

CARDIAU NADOLIG CRISTNOGOL CYMRAEG

8 cynllun Beiblaidd ar gyfer y Nadolig.
Cardiau maint mawr. 8 mewn pecyn.









Mae yna gynllun arbennig ar gyfer eglwysi ac ysgolion Sul. Am bob pecyn a werthir bydd 50c yn mynd i gronfa eich ysgol Sul chi. Dyma gyfle gwych felly i gefnogi Cyngor Ysgolion Sul a'ch ysgol Sul leol chi! Mi fyddwch chi yn talu £1.50 y pecyn amdanynt ac yn eu gwerthu am £2 y pecyn. Cynigir y cardiau ar gynllun dychwel neu werthu!

Mae yna amrywiaeth o gardiau Nadolig Cymraeg ar gael a werthir er budd gwaith yr ysgol Sul yng Nghymru, gyda chyfarchiad ac adnod ar bob cerdyn, ynghyd â llun lliw pwrpasol.

I archebu, cysyllter â (gan nodi nifer y pecynnau rydych am eu derbyn):

Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

01766 819120 aled@ysgolsul.com
Rhoir amrywiaeth o gynlluniau ymhob bocs – tra pery stoc.

Amgaeaf siec o £..... yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am ..... o becynnau am £1.50 yr un (+£2.50 cludiant).

Enw a chyfeiriad dosbarthu .....

.....

.....

Côd Post ..... Ffôn .....

ROOTS yn Gymraeg

Erbyn hyn y mae elfennau o ddeunydd addoli a dysgu Roots for Churches ar gael yn Gymraeg, a hynny i'w lawrlwytho am ddim o'r wefan i bawb sy'n tanysgrifio i'r cylchgronnau. Ar gyfer bob Sul o'r flwyddyn y mae holl weddïau ar gyfer addoliad pob oed ac addoliad adran yr oedolion ar y wefan, ynghyd â thaflen waith wythnosol ar gyfer y plant ar gael yn Gymraeg.

Mae sampler ar gael sef deunydd ar gyfer un Sul arbennig ym Medi (er y gellir ei ddefnyddio ar unrhyw Sul wrth gwrs) a copi o'r deunydd Cymraeg ar gyfer yr wythnos oddi ar y wefan. Dyma gyfle felly i arbrofi gyda'r deunydd ar gyfer oedfa arbennig.

Mae cyfle i danysgrifio i ROOTS trwy dderbyn copïau yn y post bob deufis. O danysgrifio, fe fydd y deunydd hwn ar gael yn wythnosol ar eich cyfer.

I danysgrifio ewch i wefan **www.rootsontheweb.com**


18–24 Rhagfyr 2016
Adfent 4
ROOTS
Taflen i blant
Mathew 1.18–25
Sut buaset ti'n ymateb pe byddai angel yn ymweld â thi?
Gweithgaredd 1
Daeth yr angel â neges bwysig iawn i Joseff.
Defnyddia ddrych i ddarganfod beth oedd y neges.
Mae angel yn rhoi neges bwysig i Joseff trwy freuddwyd.
Gweithgaredd 2
Cafodd Joseff syndod i glywed ei fod am fod yn dad. Pa fath o nodweddion y byddai angen arno i fod yn dad i Iesu? Ysgrifenna dy syniadau isod.
MAE ANGEN I DAD FOD YN:
Gweddi
Diolch i ti, Dduw,
am dadau a mamau,
a'r rhai sy'n dysgu i ni y gwahaniaeth rhwng da a drwg.
Diolch i ti am fod yn Dad nefol i ni,
ac am wybod bob amser
beth sydd orau i ni.
Amen.
Byw mewn ffydd
Meddylia am rywun sy'n gofalu amdanat ti, a dwed diolch wrthynt am bopeth a wnant.
Yn ychwanegol
Telephone Mac Barnett, Chronicle Books.

Llan Llanast – Messy Church yn Gymraeg



Mae dau adnodd Cymraeg yn y gyfres Llan Llanast bellach ar gael yn Gymraeg. Llan Llanast yw'r enw Cymraeg awdurdodedig ar gyfer cynnal gweithgaredd Messy Church.

Cychwyn eich Llan Llanast
Pris £4.99

Llan Llanast
Cyfeirlyfr yn cynnwys arweiniad a sesiynau ymarferol.
Pris £7.99

Beth gynnal Llan Llanast yn eich eglwys unwaith y mis?

Adnoddau Messy Church ar gael o www.brf.org.uk

Adnoddau i rannu stori'r Nadolig

Tri Comic Nadolig

Mae tri comic Beiblaidd Nadoligaidd ar gael i'w cyflwyno i blant oed cynradd. Maent ar gael am y pris arbennig o 60c yr un mewn pecynnau o 10, neu 99c yr un. Gellir hefyd archebu pecynau mawr o 50 am £25 neu 100 am £40. Gellir trefnu eu cludo i ganolfannau arbennig neu os bydd angen eu postio bydd rhaid codi cludiant ychwanegol.

Arwyr Ancora: Comic Beiblaidd y Nadolig
Comic newydd 20 tudalen ar gyfer 2016 sy'n addas ar gyfer 7 i 11 oed. Mae'r Comic hwn hefyd yn cyflwyno plant i app Beiblaidd *Guardians of Ancora* fydd ar gael yn Gymraeg yn ystod 2017.

Comic Stori'r Nadolig
Hefyd ar gael mae **Comic Stori'r Nadolig** sy'n addas ar gyfer oed 5 i 8 oed. Mae'r comic hwn yn cynnwys stori'r Nadolig ar ffurf comic a thudalennau sy'n cynnwys crefftau nadolig ac amrywiol bosau a gweithgareddau ynghyd â stori'r Nadolig.

Comic Beiblaidd Nadolig
Hefyd mae comic â gynhyrchwyd ar y cyd gyda Scripture Union Cymru ar gael sef **Comic Beiblaidd Nadolig**. Mae hwn yn gomic lliwgar 16 tudalen sy'n cynnwys stori'r Nadolig ar ffurf comic a thudalennau sy'n cynnwys cwis nadolig, ffeithiau am y Nadolig ac amrywiol bosau.

Llyfrynau Rhodd Nadolig



I Blant 5 i 7 oed: **Fy Llyfr Nadolig Cyntaf** gan **Anni Llŷn**

Yn ogystal mae llyfr lliwgar yn adrodd hanes stori'r Nadolig ar ffurf odl wedi ei greu yn arbennig gan Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru 2015–2017. Mae'n addas ar gyfer plant 4 i 8 oed. Maent ar gael am £2.99 yr un. Gellir hefyd archebu pecynau mawr o 50 am £75 neu 100 am £100. Gellir trefnu eu cludo i ganolfannau arbennig neu os bydd angen eu postio bydd rhaid codi cludiant ychwanegol.



I Oedolion: **Wele, cawsom y Meseia**

Pris: 50c yr un neu pecyn o 100 am £40
Hefyd ar gyfer oedolion mae llyfryn lliwgar 'Wele cawsom y Meseia' sy'n lyfryn 20 tudalen lliw llawn sy'n cynnwys darlleniadau, gweddiau a myfyrdodau Nadoligaidd.

Amgaeaf siec o £..... yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am

Arwyr Ancora: Comic Beiblaidd y Nadolig ..... copi am ..... yr un.

Comic Stori'r Nadolig ..... copi am ..... yr un.

Comic Beiblaidd Nadolig ..... copi am ..... yr un.

Fy Llyfr Nadolig Cyntaf ..... copi am ..... yr un.

Wele, cawsom y Meseia ..... copi am 50c yr un neu ..... pecyn o 100 am £40 yr un.

Ffôn ..... **Ebost** .....

Enw a chyfeiriad ....

..... **Côd Post** .....

Dychweler at: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Llyfrau oedolion newydd



Dehongli Meddwl Paul
Elfed ap Nefydd Roberts. pris £8.99
Y pumed cyfrol yn y gyfres boblogaidd hon, y tro yma yn cyflwyno myfyrdodau yn seiliedig ar fywyd a dysgeidiaeth Paul.



Defosiwn Gŵyl y Nadolig
Aled Davies. pris £11.99
Casgliad cynhwysfawr o ddeunydd defosiynol, yn cynnwys darlleniadau, gweddïau, cerddi a myfyrdodau ar gyfer tymor yr adfent a'r Nadolig.

Cenhadaeth Newydd i Gymru
David Ollerton. pris £9.99
Dadansoddiad manwl o batrymau cenhadu yng Nghymru gan Gristion ymroddedig i waith yr Efengyl yng Nghymru dros 20 mlynedd sy'n gyfraniad gwerthfawr i ddatblygu dulliau cenhadu effeithiol yn y dyfodol.



Gwnewch Hyn ...
Beti-Wyn James £5.99
Cyfrol wreiddiol gan Beti-Wyn James yn cynnwys 20 myfyrdod sy'n addas ar gyfer gwasanaethau Cymun.

Y Dioddefus Sy'n Maddau: Cyfrolau 1 a 2
James Alison addas. Enid Morgan £12.99 yr un
Dwy gyfrol o draethodau diwinyddol yn trafod y ffydd Gristnogol.

O'r Dechrau hyd Heddiw
– Cyngor Ysgolion Sul Cymru yn 50 Oed
Rheinallt A. Thomas (gol.) £6.99
Cyfrol yn olrhain datblygiad Cyngor Ysgolion Sul Cymru, 1966–2016, wrth iddo ddathlu hanner can mlynedd o weithgaredd yn paratoi adnoddau a hyfforddiant Cristnogol i athrawon a dosbarthiadau Ysgolion Sul ledled y wlad.

Creu a Chynnal Eglwys Iach
Robert Warren addas. Catrin Roberts. Pris £16.99
Canllaw ymarferol i fywiogi eich eglwys. Addasiad Cymraeg o The Healthy Churches Handbook.



Geiriau Cyhoeddus
Huw John Hughes. Pris £11.99 Allan Mawrth 2017
Casgliad o ddarlleniadau amrywiol ar gyfer addoliad cyhoeddus. Chwaer-gyfrol i Gweddïau Cyhoeddus a Myfyrdodau Cyhoeddus.



Te Deum
Elfed ap Nefydd Roberts. Allan Awst 2017
40 o wasanaethau cyflawn newydd gan Elfed ap Nefydd Roberts.

CANU CLOD!



CASGLIAD O DROS 400 O EMYNAU A CHANEUON CRISTNOGOL I BLANT AC IEUENCTID WEDI EU CYHOEDDI MEWN DWY GYFROL.

Ceir rhai o'n ffefrynnau traddodiadol ond yn bennaf dyma gasgliad o ganeuon Cristnogol cyfoes a gomisiynwyd ar gyfer y gyfrol.

Cyfrol 1 a 2 ar gael **nawr!**

Cerddoriaeth llawn **hen nodiant** gyda **cordiau gitâr**

Yn cynnwys caneuon gan:

Arfon Wyn, Robat Arwyn, Ceri Gwyn, Euros Rhys Evans, Martyn Geraint, Arfon Jones, John Gwilym Jones, Hefin Elis, Sian Wheway, Susan Williams, Tecwyn Ifan, Mererid Hopwood, Tudur Dylan, Gwyneth Glyn, Mererid Mair a Ynyr Roberts Brigyn

Pris y gyfrol **£26.99** *neu* y ddwy gyfrol am **£50**

Amgaeaf siec o £..... yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am

❑ ..... copi o Canu Clod! 1 am £26.99 yr un

❑ ..... copi o Canu Clod! 2 am £26.99 yr un

❑ ..... pecyn cyflawn o Canu Clod! 1 a 2 am £50

Ffôn ..... **Ebost** .....

Enw a chyfeiriad .....

..... **Côd Post** .....

Dychweler at: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Ffilmiau Beiblaidd i blant

DVD Beibl Bach Stori Duw



Casgliad newydd sbon o 4 DVD Beiblaidd, pob un yn cynnwys 10 stori 5 munud, yn cael eu hadrodd gan Eirian Wyn. Animeiddio syml, yn seiliedig ar luniau Beibl Bach Stori Duw gan y darlunydd Jago.

Y storïau yn seiliedig ar destun y Beibl poblogaidd Beibl Bach Stori Duw gan Eleri Huws.

4 DVD – £5.99 yr un, neu set cyflawn am £20.00

DVD Beibl Bach i Blant



2 gasgliad o DVD's, pob un yn cynnwys 32 stori 5 munud, yn cael eu hadrodd gan Aled Davies ac yn defnyddio lluniau Beibl Bach i Blant.

Y storïau yn seiliedig ar destun y Beibl poblogaidd Beibl Bach i Blant gan Brenda Wyn Jones.

2 gasgliad o DVD's – £11.99 yr un, neu set cyflawn am £20.00

Cyfres o bosteri Cristnogol newydd

£16.99 am 20
poster lliw llawn

Posteri'r Gair

Pecyn yn cynnwys
20
Poster Cristnogol Lliwgar

Cyfres o 20 poster Cristnogol lliwgar sy'n addas i'w arddangos mewn eglwys, festri Ysgol Sul neu ystafell ddosbarth yn yr ysgol.

Y gyfres yn cynnwys:
- Llyfrgell o holl lyfrau'r Beibl
- Map lliwgar o Israel yng nghyfnod y Beibl
- Testun Gweddi'r Arglwydd, Y Deg Gorchymun a Salm 23
- Posteri addas ar gyfer y Nadolig a'r Pasg



Nosweithiau Arddangos adnoddau Cristnogol a chyfle i drafod gwaith plant ac ieuenctid

Ionawr i Fehefin 2017, rhwng 7 a 9pm

Fel rhan o ddathliadau Cyngor Ysgolion Sul yn 50 oed rydym wedi trefnu taith o gwmpas Cymru gan ymweld â 50 lleoliad er mwyn rhoi cyfle i drafod gwaith plant ac ieuenctid. Bydd hwn yn gyfle i weld y cynlluniau diweddaraf, i drafod eich sefyllfa yn lleol ac i weld yr adnoddau diweddaraf ar gyfer cenhadaeth heddiw.

Lleoliadau'r daith:



Bydd cyfle i alw mewn yn anffurfiol er mwyn sgwrsio ac i brynu adnoddau ar y noson gan gynnwys:

- gwerslyfrau newydd i blant ac oedolion,
- dewis o dros 40 o lyfrau defosiwn
- cardiau Nadolig newydd yr ysgol Sul
- Beiblau lliw newydd i blant
- pecynnau crefft, llyfrau stori, jigso's
- Gostyngiadau hael i Ysgolion Sul

Bydd teledu yn dangos clipiau o'n ffilmiau diweddaraf a tabledi yn dangos ein apps Beiblaidd diweddaraf trwy gydol y noson.

Bydd Aled Davies ar gael rhwng 7 a 9pm i drafod unrhyw ymholiadau perthnasol.

Manylion pellach ar gael drwy gysylltu â Cyngor Ysgolion Sul: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH. Ffôn: (01766) 819120 neu aled@ysgolsul.com

Ydach chi wedi ymweld â gwefan www.ysgolsul.com yn ddiweddar?

Dros y misoedd mae llawer o adrannau newydd wedi ychwanegu at y wefan.

SIOP

Un datblygiad cyffrous yw ein adran Siop Ddigidol, lle mae modd prynu a lawrlwytho llawer iawn o'n cynnyrch.

Ar hyn o bryd mae dros 150 o ffilmiau Beiblaidd pum munud ar gael yno i'w lawrlwytho. Maent ar gael am 90c yr un (talu trwy Paypal neu efo cerdyn) ac yna mae modd lawrlwytho'r ffilm yn uniongyrchol i'ch cyfrifiadur neu gluniadur.
Mae dros 50 o werslyfrau Ysgol Sul hefyd ar gael yn ddigidol, fel e-lyfrau pdf, sy'n golygu bod modd cadw gwerslyfr cyfan ar eich cyfrifiadur ac argraffu gwersi a thaflenni gwaith yn ôl y galw.

Mae yna gasgliad helaeth o dros 20 llyfr defosiynol megis cyfrolau o oedfaon a gweddïau ar gael hefyd fel e-lyfrau pdf, sy'n galluogi y defnyddiwr i greu gwasanaethau personol gan ddefnyddio'r deunydd hwn.

ADNODDAU I'W LAWRLWYTHO

Yn yr adran adnoddau i'w lawrlwytho ceir adnoddau yn rhad ac am ddim, ac yma mae dros 600 o daflenni Beiblaidd yn y gyfres Amser Beibl ar gael, dewis o gyflwyniadau Powerpoint ac yn adran Banc Adnoddau mae yna ddewis o daflenni gwaith, syniadau crefft a cwis hefyd ar gael (hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd).

PROJECTAU

Yn yr adran projectau mae gwybodaeth a manylion cynlluniau megis Llan Llanast, Agor y Llyfr, Y Pedwar Pwynt, Y Cam Nesaf, Cwrs y Beibl, Beibl Byw a beibl.net

GWEFANNAU ERAILL

Mae gwefan yr ysgol Sul hefyd yn ceisio cyfeirio pobl at wefannau defnyddiol eraill, sy'n cynnig syniadau a chymorth ymarferol ar waith plant a ieuenctid. Ewch yno i chwilio am ba ffynonellau eraill sydd ar gael.

GWERSLYFRAU

Yn yr adran gwerslyffrau mae gwybodaeth fanwl am bob un o'r cynlluniau sydd ar gael, gan gynnwys sampleri a rhestrau cynnwys.

GWYBODAETH

Yn yr adran gwybodaeth cewch fanylion am y Cyngor a'i ddarpariaeth, a syniadau ymarferol ar waith yr Ysgol Sul. Mae yma bosteri ayyb i'w lawrlwytho yma hefyd.

CYHOEDDIADAU'R GAIR

Yn adran Cyhoeddiadau'r Gair mae manylion am ein llyfrau diweddaraf, gyda linciau i wefan gwales.com er mwyn prynu ar lein. Mae nifer o gatalogau ar gael hefyd, gan gynnwys catalog Beiblau Plant, Llyfrau defosiwn i oedolion, Gwerslyfrau i Ysgolion Sul a Llyfrau defnyddiol at waith plant a ieuenctid.

Cofiwch ymweld a gwefan Cyngor Ysgolion Sul www.ysgolsul.com yn gyson er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith.

Beth am hoffi ein tudalen Facebook:

/ysgolsul
/cyhoeddiadaurgair

Cyngor Ysgolion Sul

CYHOEDDIADAU'R GAIR